Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

# Archwiliad Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Leol

2012-2013

Awst 2013

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Tŷ Bevan**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol y Fan**
**CAERFFILI**
**CF83 3ED**


Neu trwy'r canlynol


| | |
|---|---|
| **Ffôn**: | 029 20 928850 |
| **Ebost**: | hiw@wales.gsi.gov.uk |
| **Ffacs:** | 029 20 928877 |
| **Gwefan**: | www.hiw.org.uk |



ISBN digidol 978 1 4734 0099 3


© Hawlfraint y Goron 2013


WG19485

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol……………………………………………… | 3 |
| 2 | Cyflwyniad .………………………………………………………... | 4 |
| 3 | Canfyddiadau'r Archwiliad ………………………………………. | 6 |
| 4 | Tystiolaeth o'r safonau hunanasesu gyda Sylwadau'r AGLl ac Argymhellion ar gyfer datblygu ………….. | 9 |
| 5 | Casgliad…………………………………………………………..… | 34 |
| 6 | Atodiadau……………………………………………………...… | 35 |

## 1 Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau o fewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl), ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod bydwragedd yn cael eu goruchwylio'n statudol yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dan erthygl 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae manylion y Gorchymyn hwn i'w cael yn rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor. Yng Nghymru, darperir swyddogaeth yr AGLl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r AGLl yng Nghymru wedi penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i gyflawni swyddogaeth yr AGLl ar eu rhan.

**1.2** Diben yr archwiliad blynyddol yw asesu i ba raddau y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol, o'i gymharu â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gwneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus.

### 1.3 Crynodeb

Yn y flwyddyn adrodd hon cafodd y broses ar gyfer archwilio gwasanaethau mamolaeth a ddyfeisiwyd yn 2011-2012 ei diwygio gan yr AGLl i fod yn fwy cymesur gan ganolbwyntio mwy ar naw safon benodol ar draws Cymru lle y dangoswyd yn flaenorol bod angen datblygiad parhaus. O ran Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, roedd hefyd dair safon arall a oedd naill ai heb eu bodloni neu a oedd â thystiolaeth wan yn 2011-12 a chafodd y rhain eu harchwilio eto eleni. Llwyddwyd i'w bodloni â thystiolaeth gref. Roedd yr archwiliad presennol hwn yn dangos bod 11% (1) o'r meini prawf ar gyfer y naw safon a gafodd eu pwyso a mesur yn cael eu bodloni â thystiolaeth gref, ac ni awgrymir unrhyw gamau datblygu. Roedd yr 89% (8) a oedd yn weddill wedi eu bodloni â thystiolaeth gref neu gref i gymedrol, a gwneir argymhellion ar gyfer datblygiad pellach i gryfhau'r swyddogaeth oruchwylio. Roedd y tair safon a fodlonwyd â thystiolaeth wan yn 2011-12 bellach wedi eu bodloni, a bydd datblygiad yn parhau i gael ei adolygu.

Gwneir argymhellion mewn meysydd lle mae'r offeryn archwilio yn nodi bod angen datblygiad i gynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i ddatblygu safonau lle'r oedd tystiolaeth yn llai cadarn a/neu lle byddent yn elwa o ddatblygiad parhaus yn unol ag amcanion y broses archwilio barhaus. Mae'r AGLl wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf nad bwriad y prosesau archwilio diwygiedig yw bod yn feirniadol; eu nod yw cefnogi datblygiad parhaus drwy ddenu'r adnoddau a'r hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn **www.hiw.org.uk**.

## 2 Cyflwyniad

**2.1** Mae disgwyl i Oruchwylwyr Bydwragedd weithio'n unol â chyfres gyffredin o safonau i rymuso bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithlon gan wella diogelwch y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. I roi sail i'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliadau o wasanaethau bydwreigiaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae proses archwilio'r AGLl yn defnyddio dull hunanadolygu/adolygu cymheiriaid ar gyfer holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a dilynir hyn gan ymweliad archwilio gan dîm yr AGLl i gadarnhau'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer y naw safon blaenoriaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl a enwyd, Adolygwr Lleyg yr AGLl, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd cyfagos a Goruchwyliwr Bydwragedd dan hyfforddiant. Mae hyn yn eu galluogi i archwilio fel tîm, yn rhoi cyfle i adolygu cymheiriaid a meincnodi ac yn cefnogi'r broses o rannu arfer da. Cafodd adolygwyr lleyg yr AGLl eu cynnwys yn y tîm am y tro cyntaf eleni, gan sicrhau bod safbwynt defnyddwyr yn cael ei geisio drwy gydol y broses archwilio yn lle bod yr adolygwyr lleyg yn cynnal archwiliad digysylltiad ar wahân, fel yn y blynyddoedd blaenorol; cafwyd croeso i hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio ar gyfer BILl Caerdydd a'r Fro ar 20/03/2013. Aildrefnwyd dyddiad yr archwiliad o'r dyddiad a drefnwyd ar y cychwyn, sef 09/01/13, gan fod Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i ffwrdd ar absenoldeb salwch tymor hir. Gwahoddwyd gweithwyr allweddol i fod yn bresennol, yn ogystal â thîm goruchwylio'r BILl. (**Atodiad A – Rhaglen**). Nid oedd y Cyfarwyddwr Nyrsio'n gallu bod yn bresennol ar fyr rybudd, ond cysylltwyd dros y ffôn cyn yr ymweliad archwilio a darparwyd adborth cychwynnol ar yr archwiliad gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd.

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad gan Julie Richards, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, ac fe'i cynorthwywyd ar yr achlysur hwn gan Natalie Paisey, Adolygwr Lleyg yr AGLl, Zoe Ashman, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd Cwm Taf, a Jo Lavery, Goruchwyliwr Bydwragedd dan hyfforddiant o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**2.5** Cychwynnodd yr ymweliad archwilio â chyflwyniad byr gan Julie Richards ynglŷn â diben yr archwiliad a chynlluniau'r AGLl ar gyfer y ffordd ymlaen gan gysylltu argymhellion yr archwiliad â chynllun gweithredu, yn rhan o Adroddiad Blynyddol y BILl. Yna, cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Goruchwylwyr Bydwragedd a oedd yn rhoi golwg cyffredinol ar Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a'r gweithgareddau goruchwylio, yn ogystal

â llwyddiannau'r Goruchwylwyr Bydwragedd o ran arfer da. Yn ogystal, roedd yr ymweliad archwilio yn rhoi cyfle i gyfarfod â'r Pennaeth Bydwreigiaeth, y Cyfarwyddwr Clinigol, y Nyrs Adrannol, Pennaeth Rheoli Risg a Llywodraethu Corfforaethol, Goruchwylwyr Bydwragedd a bydwragedd, a chael sylwadau gan y defnyddwyr gwasanaeth (**Atodiad B – Y rhai a gymerodd ran**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

**3.1** Diben archwiliad blynyddol yr AGLI yw adolygu'r dystiolaeth sy'n dangos bod Safonau Goruchwylio'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni; sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith i wella diogelwch mamau a babanod; sicrhau bod arferion bydwreigiaeth wedi'u hategu gan bolisïau a gweithdrefnau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod ymarferwyr yn cael cefnogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd i gynnal cymhwysedd clinigol; canfod bod bydwragedd yn cyfathrebu'n effeithiol o fewn y tîm amlddisgyblaethol ac adolygu effaith goruchwylio ar arferion bydwreigiaeth. Mae tîm adolygu'r AGLI yn llunio asesiad ar sail y wybodaeth a ddarperir cyn ac yn ystod yr ymweliad archwilio.

**3.2** Mae tystiolaeth ar gael i ddangos y gwnaed datblygiad da o ran goruchwyliaeth statudol yn ystod y 12 mis diwethaf. Llwyddwyd i gyflawni hyn yn ystod cyfnod o newid, yn sgil penodiad Pennaeth Bydwreigiaeth newydd sydd hefyd yn Oruchwyliwr Bydwragedd, a newid o ran y Goruchwyliwr Bydwragedd sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd wedi ailsefydlu'r tîm, sydd â gweledigaeth ar gyfer sicrhau bod yr oruchwyliaeth yn addas i'w diben, yn edrych i'r dyfodol, ac yn gynhwysol. Mae'r tîm yn cydnabod bod angen iddynt gwblhau'r broses o ddatblygu yn dîm cydlynol a sicrhau rhyng-gysylltiad eglur â'r rheolwyr, gan ddangos cydbwysedd iach rhwng gweithio ar y cyd a her broffesiynol briodol. Mae'r Goruchwylwyr yn cael eu grymuso fwyfwy â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cyfleoedd priodol a fydd yn eu galluogi i weithio ar lefel uwch a chyfrannu at yr agenda lywodraethau ehangach.

**3.3** **Roedd yr elfennau cadarnhaol ac enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn ystod yr adolygiad yn cynnwys**:

- Ers ymweliad archwilio 2011-12, mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd wedi bod yn defnyddio system electronig ar gyfer trefnu'r rotas gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn neilltuo amser penodol i gyflawni eu swyddogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd. Nodwyd bod hyn wedi gwneud y Goruchwylwyr Bydwragedd yn fwy amlwg yn yr ardal glinigol ac wedi galluogi'r tîm i sbarduno nifer o weithgareddau'r Goruchwylwyr Bydwragedd.

- Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cryfhau eu rhyng-gysylltiad â'r agenda llywodraethu clinigol. Ers ymweliad archwilio 2011-12, mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd wedi llunio rota er mwyn sicrhau bod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cynrychioli mewn nifer o gyfarfodydd llywodraethu clinigol adrannol, a bellach, mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn mynd i gyfarfodydd ansawdd a diogelwch, a chyfarfodydd wythnosol adolygu digwyddiadau ac yn cyfrannu at Ddadansoddiadau o Wraidd y Broblem.

- Yn ystod ymweliad archwilio 2011-12, codwyd pryderon ynglŷn â'r her o sicrhau bod gweithgareddau goruchwylio yn cael eu cynnal mewn mannau a oedd yn diogelu cyfrinachedd a phreifatrwydd. Ers yr ymweliad archwilio hwnnw, mae ystafell benodedig ar gael, er mwyn sicrhau cyfarfodydd cyfrinachol a phreifat ar gyfer holl weithgareddau'r Goruchwylwyr Bydwragedd. Swyddog gweinyddol y Goruchwylwyr Bydwragedd sy'n archebu'r ystafell ar eu cyfer. Mae'r ystafell wedi ei threfnu fel ystafell gyfarfod fechan sy'n cynnwys cypyrddau â chlo arnynt ar gyfer cadw cofnodion y Goruchwylwyr Bydwragedd, ac mae cyfleusterau TG hefyd ar gael yno.

- Bu nifer o newidiadau o ran yr amgylchedd yn y sefydliad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd y datblygiadau hyn yn welliant amlwg i Adolygydd Lleyg yr AGLI a oedd wedi ymweld yn 2010-11. Yn ystod yr ymweliad â'r ardal glinigol, roedd yr amgylchedd yn dawel, yn drefnus, ac yn teimlo'n ddiogel, yn ôl disgrifiad y tîm adolygu. Roedd hefyd yn amlwg bod strwythur cyfathrebu eglur wedi ei sefydlu, megis trafodaethau diogelwch dyddiol a thrafodaethau diogelwch goruchwylio misol.

### 3.4 Heriau

- Fel sydd gan y rhan fwyaf o'r timau Goruchwylwyr Bydwragedd, ceir heriau penodol o ran cadw cydbwysedd rhwng anghenion y brif swydd ac anghenion bod yn Oruchwyliwr Bydwragedd. Nid oes yr un tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n cydymffurfio'n llawn â'r broses Adolygiad Blynyddol o Oruchwyliaeth sy'n sicrhau bod yr holl fydwragedd wedi cael adolygiad blynyddol yn ystod y 12 mis blaenorol.
- Dylai Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu tîm goruchwylio mwy cydlynol a chwilio am gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth a datblygiad, er mwyn i rai ohonynt allu gweithio'n fwy effeithiol ar lefel strategol.
- Mae'r hinsawdd ariannol anodd yn golygu ei bod yn her i gynorthwyo'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd i gael profiad digonol o bob agwedd ar y swyddogaeth, a gwelir hynny yn yr offeryn cymhwysedd goruchwyliaeth blynyddol a gyflwynwyd i'r AGLI.
- Yn ystod yr ymweliad archwilio, cododd y tîm adolygu bryderon ynglŷn â chynnig gwasanaeth monitro CTG i bob menyw sydd â risg isel, gan nad yw hyn yn arfer wedi ei seilio ar dystiolaeth a'i fod yn mynd yn groes i argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Mae'n ofynnol dan God Ymarfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i fydwragedd ddarparu gofal sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth gadarn, a swyddogaeth y Goruchwylwyr Bydwragedd yw cynorthwyo bydwragedd i ddarparu gofal effeithiol sy'n hybu normalrwydd. Mae'r rhain yn

safonau y gellid eu cwestiynu o ystyried yr arfer hwn.

**3.5 Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae argymhellion ar gyfer cefnogi tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i gyflwyno gwelliannau i'r swyddogaeth oruchwylio wedi eu nodi dan bob un o safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn yr offeryn archwilio sy'n dilyn. Cyflwynodd y Goruchwylwyr Bydwragedd eu tystiolaeth cyn ymweliad archwilio'r AGLI, ac roedd yn ofynnol iddynt nodi unrhyw gamau gwella yr oeddent yn teimlo bod eu hangen ar gyfer cryfhau eu tystiolaeth yn unol â'r mesurau a ddisgrifiwyd gan yr AGLI i ddangos tystiolaeth gref, gymedrol neu wan. Diben y broses ddiwygiedig hon oedd galluogi'r Goruchwylwyr Bydwragedd i nodi eu camau gwella eu hunain ar gyfer y flwyddyn nesaf, a rhoi cyfrifoldeb iddynt dros ddatblygiadau ar gyfer y dyfodol. Yn gyffredinol, nid oedd y cynllun gweithredu yn yr offeryn archwilio wedi ei ddatblygu ers y flwyddyn flaenorol, lle'r oedd y cynllun yn amrywio o ran dangos camau gweithredu CAMPUS a fyddai'n cyfrannu at welliant parhaus. Mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd lunio cynllun gweithredol da ar gyfer goruchwyliaeth, i'w cynorthwyo i ddangos llwyddiannau a chynnydd. Fodd bynnag, mae'r hyn a gyflawnwyd hyd yma yn darparu sylfaen dda ar gyfer y flwyddyn nesaf, a gellir ei ddatblygu yn gynllun gweithredu wedi'i dargedu, ar sail y materion a nodwyd yn ystod ymweliad archwilio'r AGLI.

**3.6** Mae'r manylion sy'n sail i'r argymhellion wedi eu hamlinellu yn adran 4 dan sylwadau ac argymhellion yr AGLI yn yr offeryn archwilio. Mae gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wyth o safonau lle y byddai datblygiad pellach yn fuddiol. Bydd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn gweithio gyda'u timau i gynorthwyo i baratoi cynllun gweithredol ar gyfer y flwyddyn nesaf a fydd yn mynd i'r afael â datblygiad y safonau hyn ac yn bodloni gofynion cymhwysedd y tîm.

**4 Offeryn Hunanasesu Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac Adborth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI am y Camau Gweithredu a Argymhellir**

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V1 | **Ceisir barn a phrofiadau bydwragedd o oruchwyliaeth statudol.** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Caerdydd a'r Fro wedi llenwi holiaduron yn ddiweddar, a 30% oedd y gyfradd ymateb. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V1 | **Canlyniadau:**<br><br>**Yr AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gref i gymedrol.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus.** | **Archwiliad o fwy nag 20% o safbwyntiau bydwragedd**<br><br>**Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol**<br><br>**Mae 95 i 100% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn gyffredinol** | **Safbwyntiau o leiaf 10% o fydwragedd**<br><br>**Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol**<br><br>**Mae 90 – 95% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn bennaf** | **0 archwiliad**<br><br>**Mae llai na 10 yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol, neu'n dweud ei bod yn negyddol**<br><br>**Mae llai na 90% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad a/neu ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth negyddol** |

**Sylwadau'r AGLI**

Defnyddiodd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yr un holiadur ag a gyflwynwyd yn 2011-12, a chynyddodd y gyfradd ymateb o 13% i 24%, gan i 72 o'r 295 o fydwragedd ddychwelyd holiadur. Darparwyd cyflwyniad o'r archwiliad o sylwadau'r bydwragedd yn rhan o'r dystiolaeth ar gyfer yr archwiliad, a hysbyswyd am y broses a'r canlyniadau.

Roedd sylwadau yn yr holiadur yn awgrymu'r canlynol:
- Mwy o gyfleoedd anffurfiol i'r staff gael cysylltiad â'r goruchwylwyr.
- Parhau i wneud yn siŵr bod goruchwyliaeth yn amlwg yn yr uned.
- Cynyddu'r defnydd o'r ystafell oruchwylio benodedig ar gyfer adolygiadau blynyddol.

Wrth gyflwyno tystiolaeth, rhannodd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd hanes bydwraig o'i phrofiad o oruchwyliaeth. Dywedodd y fydwraig ei bod wedi mynd at ei Goruchwyliwr Bydwragedd o'i phen a'i phastwn ei hun er mwyn llunio cynllun cefnogol i fynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud ag ymarfer bydwreigiaeth. Roedd yn teimlo ei bod "yn cael cefnogaeth lawn gan ei Goruchwyliwr Bydwragedd" a'i bod yn argymell y dylai bydwragedd edrych ar eu hymarfer a nodi meysydd lle y mae angen mwy o gymorth arnynt a mynd at eu goruchwyliwr i ofyn am gefnogaeth i roi cynllun ar waith.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Dylai tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro lunio cynllun gweithredu manwl o'r adroddiad archwilio. Dylid rhannu'r adroddiad a'r cynllun gweithredu â'r bydwragedd a'r pwyllgorau sefydliadol perthnasol fel adborth o'r broses archwilio.

Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi nodi yn yr adroddiad ar yr holiadur y dylid adolygu'r dull archwilio er mwyn ystyried sut i gynyddu'r gyfradd ateb a datblygu'r holiadur i fod yn haws ei ddefnyddio.

Dylai Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro hefyd ystyried amrywiaeth o ddulliau adborth er mwyn cael mwy o awgrymiadau a sylwadau gan y bydwragedd ynglŷn â goruchwyliaeth statudol.

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i'w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI:</th></tr>
<tr><td>V2</td><td>Cynhelir gweithgareddau goruchwylio cyfrinachol mewn ystafell sy'n sicrhau preifatrwydd.</td><td colspan="2">Mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn cael defnyddio ystafell breifat yn swyddfeydd y gyfarwyddiaeth erbyn hyn. Gellir archebu'r ystafell rhwng 8:00am a 6:00pm, ac mae ystafelloedd preifat eraill ar gael ar ôl 6:00pm yn y brif uned.<br><br>Mae'r ffaith fod TG ar gael yn golygu y gellir defnyddio cronfa ddata'r AGLI yn ystod gweithgareddau'r Goruchwylwyr Bydwragedd.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td colspan="2">V2 Canlyniadau:<br><br>Nid oedd hi'n bryd asesu'r safon hon, ond adolygwyd yr argymhellion o archwiliad 2011-2012.</td><td>Dangoswyd ystafell benodol i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y cynhelir cyfweliadau goruchwylio<br><br>Ceir mynediad i'r rhyngrwyd yn yr ystafell benodol er mwyn gallu gweithio ar-lein, yn ogystal â mynediad at gronfa ddata'r Awdurdod Goruchwylio Lleol<br><br>Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd</td><td>Mae ystafell benodol ar gael gan amlaf neu gellir dangos i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y sicrheir bod ystafelloedd ar gael<br><br>Ni cheir mynediad rheolaidd i'r rhyngrwyd<br><br>Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd</td><td>Ni ellir nodi unrhyw ystafelloedd neu mae'n ymddangos y cânt eu neilltuo yn ôl yr angen<br><br>Dim mynediad i'r rhyngrwyd<br><br>Mae llai na 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd</td></tr>
<tr><td colspan="5">Sylwadau'r AGLI<br><br>Ni chynhwyswyd y safon hon yn yr archwiliad presennol, ond o ystyried y pryderon a godwyd yn ystod archwiliad y llynedd, edrychwyd ar y dystiolaeth. Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ystafell benodedig erbyn hyn, ond yn yr holiadur diweddar, 92% o'r bydwragedd a oedd o'r farn fod eu hadolygiad blynyddol yn un preifat a'i fod wedi ei gynnal mewn ystafell breifat.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus<br><br>Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi nodi bod yn rhaid i'r ystafell a neilltuwyd yn 2012-13 gael ei defnyddio er mwyn cydymffurfio'n llawn â meini prawf y safon hon.</td></tr>
</table>

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V3 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisïau a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymarfer clinigol.** | Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn ysgrifennu ac adolygu canllawiau a pholisïau. Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd hefyd yn mynd i grŵp safonau a chanllawiau.<br><br>Dosberthir yr holl ganllawiau a newidiadau i bolisïau i'r Goruchwylwyr Bydwragedd i roi eu sylwadau, yn rhan o'r broses gadarnhau. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau: Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V3 | **Canlyniadau:**<br><br>**Yr AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gymedrol / gref.**<br><br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.** | **Proses eglur sy'n amlinellu sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â'r grŵp datblygu canllawiau**<br><br>**Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel datblygwyr** | **Mae rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â datblygu canllawiau hyd yn oed os nad yw hyn yn broses ffurfiol**<br><br>**Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel unigolion yr ymgynghorwyd â hwy** | **Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n cyfeirio at Oruchwylwyr Bydwragedd yn datblygu neu'n cymeradwyo canllawiau** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae proses eglur ar gael ar gyfer datblygu'r canllawiau yn y Gyfarwyddiaeth Menywod. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys llawer o unigolion sydd hefyd yn Oruchwyliwr Bydwragedd. Mae'r grŵp datblygu canllawiau yn nodi'n eglur swyddogaeth y grŵp, pa mor aml y bydd yn cyfarfod a sut y bydd cofnodion yn cael eu dosbarthu yn dilyn y cyfarfodydd.

Er bod ffeil dystiolaeth yr archwiliad yn cynnwys llawer o ganllawiau bydwreigiaeth, nodwyd arnynt mai Uwch Fydwraig oedd y swyddog arweiniol, ac o ganlyniad, roedd yn llai amlwg pa ganllawiau penodol y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn gyfrifol amdanynt fel awdur.

Ymgynghorir â'r Goruchwylwyr ynglŷn ag unrhyw bolisïau neu ganllawiau drafft i'w hadolygu, ac mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhan o'r grŵp polisïau a chanllawiau.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Pan fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd/grŵp llywodraethu clinigol, mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd wneud yn siŵr eu bod yn nodi'n glir yn rhinwedd pa swyddogaeth y maent yn bresennol, ac nad ydynt yn cael eu hystyried bob amser fel cynrychiolydd y rheolwyr yn unig, gan fod goruchwyliaeth yn dod â gwahanol safbwynt yn ei sgil.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V4 | **Mae dogfennau canllawiau a pholisïau lleol ar gael i bob bydwraig ar ffurf electronig neu gopi caled.** | Mae'r holl ganllawiau a pholisïau bydwreigiaeth ac obstetreg ar gael ar borth clinigol Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.<br><br>Mae copïau caled yn cael eu cynnwys yn y nodiadau, pan fo angen.<br><br>Trafodir canllawiau newydd yn rhan o'r briffio ar ddiogelwch, yn enwedig os yw'n effeithio ar eu maes clinigol.<br><br>Amlygir newidiadau hefyd yn y cylchlythyr misol. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V4 **Canlyniadau:**<br><br>**Yr AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gref.**<br><br>**Ni wnaed unrhyw argymhellion ar gyfer datblygu.** | | **Proses eglur sy'n dangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu gyda bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Ceir proses eglur i Oruchwylwyr Bydwragedd ddosbarthu canllawiau a sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** | **Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu, ond mae'n amlwg eu bod yn ymwneud â phroses o gyfathrebu â bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwneud y dosbarthu, ond gallant ddangos eu bod yn ymwneud i ryw raddau â sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol o'r canllawiau neu'n cytuno arnynt** | **Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni unrhyw swyddogaeth wrth hysbysu bydwragedd am ganllawiau newydd neu sicrhau eu bod yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** |

**Sylwadau'r AGLI**

Yn ystod yr ymweliad archwilio, cadarnhaodd y bydwragedd fod y canllawiau a'r polisïau lleol ar gael iddynt trwy'r porth clinigol, a gwelwyd hynny wrth adolygu'r amgylchedd clinigol.

Roedd y bydwragedd yn nodi bod y sesiwn briffio ar ddiogelwch yn ddull gwerthfawr o gyfathrebu ar gyfer sicrhau bod y bydwragedd yn ymwybodol o newidiadau/diweddariadau i'r canllawiau.

Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn cefnogi'r system e-bost derbynneb darllen er mwyn olrhain unrhyw fydwragedd nad ydynt yn defnyddio e-bost fel modd o gyfathrebu.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Ni wnaed unrhyw argymhellion.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V5 | **Mae gweithdai sgiliau ac ymarferion sy'n berthnasol i'w lleoliad ymarfer, ac a argymhellir gan CEMACH (yr Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd Mamau a Phlant) ac argymhellion cenedlaethol eraill, ar gael i fydwragedd ac maent yn manteisio arnynt.** | Darperir rhaglen o hyfforddiant gorfodol, blynyddol sy'n cynnwys ymarferion argyfwng rheolaidd yn yr uned, sy'n cydymffurfio â safonau Cronfa Risg Cymru.<br><br>Cedwir cofnodion presenoldeb yn ganolog.<br><br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn cefnogi bydwragedd i fynd i weithdai sgiliau ac ymarferion. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V5 **Canlyniadau:**<br><br>**Yr AGLI – Nid aseswyd y safon hon, ac ni wnaed unrhyw argymhellion o archwiliad 2011-2012.** | | **Ceir cofnod hyfforddiant sy'n dangos bod rhaglen wedi'i sefydlu o flwyddyn i flwyddyn sy'n ymdrin â'r holl brif sgiliau ac ymarferion a argymhellir gan CEMACH**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 95 - 100% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o gofnod hyfforddiant ond nid yw'n gyfredol nac yn dangos gwelliant parhaus o ran presenoldeb**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 90 - 95% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus.**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **Nid oes cynllun hyfforddiant wedi'i sefydlu i gefnogi presenoldeb na gwelliant yn y niferoedd sy'n mynychu**<br><br>**Mae llai na 90% o fydwragedd wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarferion gorfodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mewn blynyddoedd blaenorol**<br><br>**Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** |

**Sylwadau'r AGLI**

Darparodd y Goruchwylwyr Bydwragedd dystiolaeth i ddangos bod yr holl Fydwragedd (gan gynnwys y bydwragedd cymunedol) yn mynd i Ddiwrnod Argyfwng Obstetreg bob blwyddyn. Cynhelir sesiynau Sgiliau ac Ymarferion hefyd bob chwe wythnos yn y brif uned. Mae'r Ymarferwyr Bydwreigiaeth hefyd yn ysgrifennu cyfrif o argyfyngau "amser real" risg uchel.

Defnyddiwyd cyllid y Goruchwylwyr Bydwragedd i ddatblygu ystafell sgiliau clinigol yn yr ystafelloedd esgor, sy'n cynnwys cyswllt technoleg gwybodaeth ar gyfer y pecyn hyfforddiant CTG.

| |
|---|
| Bydd cynllun hyfforddiant 2013-2014 yn rhaglen 5 niwrnod lle y mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn gobeithio darparu cyfnod o amser penodol ar gyfer codi proffil goruchwyliaeth. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Nid aseswyd y safon hon, ac ni wnaed unrhyw argymhellion yn sgil archwiliad 2011-2012. |

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i'w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI:</th></tr>
<tr><td>V6 a V7</td><td>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cadw cofnodion ynglŷn â gweithgareddau Goruchwylio am 7 mlynedd. Rheol 12. Caiff cofnodion goruchwylio eu storio mewn ffordd sy'n cynnal cyfrinachedd. Rheol 12.</td><td colspan="2">Mae'r Goruchwylwyr unigol yn gyfrifol am sicrhau bod eu cofnodion yn cael eu cadw dan glo. Mae man storio canolog bellach ar gael yn ystafell benodedig y Goruchwylwyr Bydwragedd.<br><br>Rhennir gweithgareddau goruchwylio ar "Yriant S" y sefydliad, a dim ond y Goruchwylwyr Bydwragedd sy'n gallu cael gafael ar y ffeiliau perthnasol.<br><br>Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn defnyddio cronfa ddata'r AGLI i lanlwytho'r cofnodion a'r dogfennau goruchwylio.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td colspan="2">V6 a V7 Canlyniadau:<br><br>Yr AGLI – Nid oedd hi'n bryd asesu'r safonau hyn, ond adolygwyd argymhellion o archwiliad 2011-2012.</td><td>Ceir man penodol sydd wedi ei nodi'n eglur ar gyfer cadw cofnodion goruchwylio nad ydynt yn rhan o unrhyw ffeiliau Adnoddau Dynol eraill.<br><br>Gellir dangos bod y cofnodion hyn yn mynd yn ôl o leiaf 7 mlynedd<br><br>Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio'r broses y byddent yn ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol</td><td>Ceir man lle y cedwir cofnodion goruchwylio, ond maent yn tueddu i gael eu cadw gyda ffeiliau Adnoddau Dynol eraill, er eu bod yn dal ar wahân ac nad oes modd i bobl eraill gael atynt<br><br>Ni ellir dangos bod y cofnodion yn mynd yn ôl 7 mlynedd<br><br>Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio rhan o'r broses y byddent yn ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol</td><td>Nid oes man penodol ar gael ac mae ffeiliau goruchwylio yn cael eu cadw gyda ffeiliau rheoli/Adnoddau Dynol sydd ar gael i bobl eraill<br><br>Ychydig o gofnodion a gedwir yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol, neu ddim o gwbl<br><br>Nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio'n ddigonol yr hyn y byddent yn ei wneud pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol</td></tr>
<tr><td colspan="5">Sylwadau'r AGLI<br><br>Nid adolygwyd y safon hon yn ystod yr ymweliad archwilio. Fodd bynnag, dywedodd y Goruchwylwyr Bydwragedd fod yr ystafell benodedig bellach wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn ystod archwiliad 2011-2012 ynglŷn â chadw cofnodion.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus<br><br>Ni wnaed unrhyw argymhellion, gan fod y safon hon bellach wedi ei bodloni â thystiolaeth gref.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i'w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI:</th></tr>
<tr><td>V8</td><td>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael cymorth gyda'u tasgau gweinyddol yn unol â chyllid yr AGLI.</td><td colspan="2">Mae swyddog gweinyddol wedi bod yn ei swydd ers mis Hydref 2012.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td colspan="2">V8 Canlyniadau:<br><br>Nid oedd hi'n bryd asesu'r safon hon, ond adolygwyd argymhellion o archwiliad 2011-12.</td><td>Ceir swyddog gweinyddol penodol sy'n gallu dangos ei swyddogaeth yn eglur o ran cynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd trwy gofnodion a chyfathrebu ar lafar</td><td>Mae rhywfaint o amser wedi'i neilltuo ar gyfer materion gweinyddol, ond nid yw deiliad unigol y swydd yn gallu dangos cofnodion cystal o'i gwaith na'i ddisgrifio'n dda</td><td>Gellir gweld trwy adolygu cofnodion ac wrth drafod nad oes amser wedi'i neilltuo mewn gwirionedd ar gyfer cymorth gweinyddol</td></tr>
</table>

**Sylwadau'r AGLI**

Gwnaed argymhelliad yn 2011-2012 y dylai'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd adolygu'r trefniant blaenorol ar gyfer cymorth gweinyddol, ac yn ystod 2012-2013, neilltuwyd 18.5 o oriau i ddeiliad swydd penodol gyflawni'r gorchwylion gweinyddol.

Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos y gwerth y mae'r swyddogaeth hon yn ei gynnig ar gyfer cynorthwyo'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd â'r gweithgareddau canlynol:

- Cefnogi cyfarfodydd misol y Goruchwylwyr Bydwragedd trwy baratoi'r agenda a'r cofnodion
- Cynorthwyo i ddatblygu ac ail-ddylunio posteri arddangos y Goruchwylwyr Bydwragedd
- Cynorthwyo â'r trefniadau ar gyfer ymweliad archwilio AGLI
- Trefnu i gadw lle mewn cynadleddau a threfniadau Oracle
- Cyswllt cyfathrebu â thîm cymorth yr AGLI
- Cynorthwyo'r Goruchwylwyr gyda chamau o'r broses monitro cerdyn sgorio chwarterol, megis sicrhau bod yr Adolygiadau Blynyddol i gyd yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata'r AGLI, a chymryd camau dilynol o ran adolygiadau sydd heb eu cynnal

Gwelwyd bod y cymorth gweinyddol ar gael yn deg i holl Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Ni wnaed unrhyw argymhellion, gan fod y safon hon bellach wedi ei bodloni â thystiolaeth gref.

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i'w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI:</th></tr>
<tr><td>V9</td><td>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a chaiff y trafodion eu cofnodi.</td><td colspan="2">Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro bellach yn cyfarfod bob mis yn hytrach na phob 6 wythnos. Darperir agenda a chofnodion yn gofnod o'r cyfarfod.<br><br>Cynhelir y cyfarfodydd ar wahanol ddyddiau'r wythnos er mwyn cynyddu presenoldeb.<br><br>Neilltuir 8 awr i'r Goruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer eu gweithgareddau goruchwyliaeth, gan gynnwys mynd i gyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td colspan="2">V9 Canlyniadau:<br><br>Nid aseswyd y safon hon, ac nid oedd unrhyw argymhellion o archwiliad 2011-2012.</td><td>Ceir cofnodion eglur o gyfarfodydd gyda Chylch Gorchwyl a chynllun gweithgarwch/gosod agenda<br><br>Cofnodir pawb sy'n bresennol yn eglur ac mae lefel presenoldeb o 70 – 75% ym mhob cyfarfod<br><br>Ceir proses eglur ar gyfer dosbarthu cofnodion a neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd<br><br>Roedd 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd</td><td>Ceir cofnodion o gyfarfodydd ond nid oes proses eglur ar gyfer gosod yr agenda na Chylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp<br><br>Cofnodir pawb sy'n bresennol ac mae lefel presenoldeb o 50 - 70% ym mhob cyfarfod<br><br>Ceir proses ar gyfer dosbarthu cofnodion ond nid yw mor amlwg sut y cymerir camau gweithredu a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny<br><br>Roedd 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd</td><td>Nid oes trywydd cofnodion y gellir ei archwilio, Cylch Gorchwyl na chynllun eglur ar gyfer gosod agenda<br><br>Mae'n ymddangos bod llai na 50% yn bresennol yn rheolaidd ym mhob cyfarfod<br><br>Nid oes proses wedi'i sefydlu ar gyfer dosbarthu cofnodion na neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd<br><br>Roedd llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd</td></tr>
<tr><td colspan="5">Sylwadau'r AGLI<br><br>Mae'r cyfarfodydd yn cael eu datblygu trwy gyfarwyddyd gan yr AGLI, a gosodir yr agenda gan y cadeirydd cyn pob cyfarfod.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus<br><br>Nid aseswyd y safon hon, ac nid oedd unrhyw argymhellion yn archwiliad 2011-2012.</td></tr>
</table>

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V10 | **Mae mecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth a ddosberthir gan gyrff statudol.** | Mae'r holl wybodaeth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion ac ati yn cael ei hanfon ymlaen fel e-bost swmp at yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd a / neu'r Pennaeth Bydwreigiaeth, fel y bo angen. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V10 | **Canlyniadau:**<br><br>**Nid aseswyd y safon hon.** | | **Mae proses eglur wedi'i sefydlu y gellir dangos ei bod yn sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth gan gyrff statudol h.y. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion**<br><br>**Gallai 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Mae proses rannol wedi'i sefydlu, ond nid oes tystiolaeth eglur i ddangos sut y mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn y wybodaeth**<br><br>**Gallai 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Nid oes proses eglur wedi'i sefydlu ac mae'n ymddangos bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar hap ac yn ôl y gofyn**<br><br>**Gallai llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd yn gallu cael gafael ar negeseuon e-bost trwy ddefnyddio'r ddarpariaeth TG ar draws y sefydliad.

Rhennir cylchlythyr yr AGLI yn eang â'r bydwragedd, ac mae wedi ei arddangos ar draws y gwasanaeth mamolaeth.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Ni wnaed unrhyw argymhelliad.

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i'w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI:</th></tr>
<tr><td>V11</td><td>Mae strategaethau fframweithiau Llywodraethu Clinigol Lleol yn cydnabod goruchwyliaeth statudol i fydwragedd.</td><td colspan="2">Mae enwau chwe Goruchwyliwr Bydwragedd wedi eu nodi i fynd i gyfarfodydd Llywodraethu Clinigol perthnasol. Sefydlwyd trefniant cylchdro er mwyn sicrhau bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol mewn cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch, Risgiau Clinigol, Cyfarfodydd Proffesiynol, trawsnewid gofal / 1000 o fywydau, gan gydnabod y gwahanol safbwyntiau y mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn eu cyfrannu at y cyfarfodydd llywodraethu clinigol perthnasol.<br><br>Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro feysydd penodol i arwain arnynt o ran y broses llywodraethu clinigol a chynlluniau gweithredu rheoli risg.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td>V11</td><td>Canlyniadau:<br><br>Yr AGLI – bodlonwyd â thystiolaeth gymedrol, a gwnaed argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus.</td><td>Ceir polisi ysgrifenedig eglur yn yr adran llywodraethu clinigol sy'n ystyried y rhyng-gysylltiad rhwng y timau llywodraethu Clinigol/Goruchwylwyr Bydwragedd<br><br>Ceir cofnodion rheolaidd o gyfarfodydd lle y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol yn rhinwedd eu swyddogaeth oruchwylio ac yn dangos eu cyfraniad at yr agenda llywodraethu clinigol</td><td>Nid oes polisi ysgrifenedig wedi'i sefydlu, ond mae rheolwyr llywodraethu clinigol yn gallu disgrifio'r hyn y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud a sut y maent yn cyfrannu at yr agenda llywodraethu clinigol ar hyn o bryd<br><br>Roedd Goruchwyliwr Bydwragedd yn bresennol yn y pwyllgor llywodraethu clinigol priodol, neu wedi cyfrannu ato, ar 2 achlysur o leiaf yn ystod y flwyddyn flaenorol</td><td>Nid oes tystiolaeth eglur i ddangos bod y tîm llywodraethu clinigol yn cydnabod Goruchwylwyr Bydwragedd, ac ni allant ddisgrifio'r rhyng-gysylltiad yn eglur<br><br>Nid oes tystiolaeth bod Goruchwyliwr Bydwragedd yn mynychu unrhyw bwyllgor llywodraethu clinigol yn ei hawl ei hun hyd yn oed os yw hi yno yn rhinwedd dwy swyddogaeth</td></tr>
<tr><td colspan="5">Sylwadau'r AGLI<br>Ers archwiliad 2011-2012 yr AGLI, mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cydnabod bod angen iddynt ddangos yn fwy amlwg eu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol yn rhinwedd eu swydd fel Goruchwylwyr Bydwragedd. Mae'r trefniant cylchdro sydd bellach wedi ei sefydlu i sicrhau y cyfrennir gwahanol safbwynt y Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cryfhau'r rhyng-gysylltiad eglur rhwng llywodraethu clinigol a swyddogaeth y Goruchwylwyr Bydwragedd.<br><br>Yn ystod yr ymweliad archwilio, roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio sut y maent yn cyfrannu at yr agenda llywodraethu clinigol o safbwynt ymarfer bydwreigiaeth neu faterion sy'n ymwneud â'r Goruchwylwyr Bydwragedd.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Roedd y Pennaeth Risg a Llywodraethu Corfforaethol yn bresennol yn ymweliad archwilio'r AGLI, ac roedd yn gallu disgrifio'r cysylltiad rhwng goruchwyliaeth a rheoli risg ar gyfer gwella diogelwch y cyhoedd. Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau mamolaeth yn cael eu rhannu ar draws disgyblaethau eraill ac i'r gwrthwyneb. Gwelwyd tystiolaeth hefyd o weithio ar y cyd ar ymchwiliadau.<br><br>Eglurodd y fydwraig llywodraethu a'r rheolwr risg corfforaethol fod cylch gorchwyl ysgrifenedig yn rhoi ystyriaeth i'r rhyng-gysylltiad rhwng goruchwyliaeth a llywodraethu clinigol. Bydd hwn yn cael ei gwblhau ar ôl cytuno ar newidiadau sefydliadol. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br>Ar ôl cytuno ar y newidiadau sefydliadol, dylid cytuno ar fframwaith ysgrifenedig sy'n nodi cyfraniad gweithredol y Goruchwylwyr Bydwragedd tuag at wella ansawdd, llywodraethu a diogelwch i fenywod a'u babanod yn rhinwedd eu swydd fel Goruchwylwyr Bydwragedd, ni waeth beth yw eu prif swydd ar adegau eraill.<br>Dylid ymwreiddio'r arfer o gynnal ymchwiliadau ar y cyd rhwng rheolwyr, y tîm risg a goruchwylwyr fel mater o drefn yn hytrach nag fel eithriad. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V12 | **Mae rhyng-gysylltiad amlwg rhwng goruchwylio a rheoli risg wrth ymchwilio i ddigwyddiadau critigol.** | Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan mewn adolygiadau wythnosol o ddigwyddiadau er mwyn ystyried hysbysiadau cychwynnol am ddigwyddiadau.<br><br>Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymuno â chyfarfodydd Dadansoddiad o Wraidd y Broblem ac yn arwain ar gamau perthnasol.<br><br>Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi gwybod i gyfarfodydd misol y Goruchwylwyr Bydwragedd am y camau gweithredu o'r cyfarfodydd Dadansoddiad o Wraidd y Broblem | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: Cryf | Cymedrol | Gwan |
| V12 | **Canlyniadau:**<br><br>**Yr AGLI – bodlonwyd â thystiolaeth gymedrol, a gwnaed argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus.** | **Ceir cylch gorchwyl eglur ar gyfer adolygu digwyddiadau difrifol sy'n cynnwys yr angen i Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses**<br><br>**Pan fo canlyniadau Dadansoddiad o Wraidd y Broblem a gynhaliwyd ynglŷn â digwyddiad difrifol yn cael eu hadolygu ar sail tîm amlddisgyblaethol, ceir tystiolaeth eglur bod Goruchwyliwr Bydwragedd wedi bod yn rhan o'r tîm yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Goruchwyliwr Bydwragedd er mwyn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd** | **Nid oes cylch gorchwyl ysgrifenedig sy'n nodi y dylai Goruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o gyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol, ond gall aelodau staff llywodraethu clinigol a Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio bod hyn yn digwydd**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd a'r tîm llywodraethu clinigol yn cydweithio mewn adolygiad o ddigwyddiad difrifol ac yn arbennig pan fo gwersi i'w dysgu o ran arfer bydwreigiaeth** | **Nid oes cydnabyddiaeth fod angen i Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses adolygu digwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol ac nid oes proses iddynt rannu gwersi gyda'r tîm bydwreigiaeth** |

**Sylwadau'r AGLI**

Yn ystod yr ymweliad archwilio, disgrifiodd y fydwraig llywodraethu clinigol a'r rheolwr risg corfforaethol y cynnydd yng nghyfraniad y Goruchwylwyr Bydwragedd at

| |
|---|
| lywodraethu clinigol ar lefel adrannol. Tynnodd y rheolwr risg corfforaethol sylw at ba mor werthfawr yw hi i'r Goruchwylwyr Bydwragedd fod yn bresennol mewn cyfarfodydd Dadansoddiad o Wraidd y Broblem fel eiriolwr i fenywod. Amlygwyd y ffaith bod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan weithredol mewn cynorthwyo'r bydwragedd, cynnal trafodaethau ar ôl y cyfarfod a darparu adborth.<br><br>Fel yn safon V11, roedd yn gadarnhaol fod tîm risg corfforaethol y Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithio ar gryfhau'r rhyng-gysylltiad er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn gydnaws. Mae'r arfer hwn o gydweithio rhwng rheolwyr a goruchwylwyr yn gysyniad sy'n datblygu, ac wrth weithio â'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd nad yw'r arfer fyth wedi ei ymwreiddio'n dda fel proses awtomatig a bod angen ei datblygu ymhellach. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd lunio cylch gorchwyl eglur gyda'r tîm rheoli risg corfforaethol a sut y gall goruchwylwyr gysylltu â phroses ar y cyd, neu gyfrannu at y broses honno, er mwyn dyblygu gwaith cyn lleied â phosibl a gwella canlyniadau ar gyfer y rhai hynny sy'n destun ymchwiliad. Yn yr un modd, mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd gael eu cydnabod gan y tîm rheoli risg fel rhai sydd â mesur o arbenigedd i'w gyfrannu at y broses Dadansoddiad o Wraidd y Broblem. Argymhellir y dylai cynllun gwaith y Goruchwylwyr Bydwragedd gynnwys amcan a fydd yn eu hannog i weithio'n fwy agos â'r tîm rheoli risg. Gellir dangos tystiolaeth ar ddiwedd yr archwiliad blynyddol nesaf. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V13 | **Caiff canlyniadau ymchwiliadau i ddigwyddiadau critigol eu dosbarthu er mwyn rhoi sail i arferion.** | Anogir pob bydwraig sy'n ymwneud â digwyddiadau critigol i fynd i'r cyfarfodydd Dadansoddiad o Wraidd y Broblem.<br><br>Rhoddir adborth unigol i'r staff trwy'r broses Dadansoddiad o Wraidd y Broblem, ac mae'r canlyniadau a amlygwyd yn cael eu trafod yn un o gyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd.<br><br>Mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu harddangos yn yr ardal glinigol trwy Gylchlythyr, ac mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn darparu Briff Diogelwch bob mis. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V13 **Canlyniadau:**<br><br>**Yr AGLI – bodlonwyd â thystiolaeth gymedrol, a gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus.** | | **Ceir proses eglur a dulliau gwirioneddol o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol gyda bydwragedd yn ymarferol**<br><br>**Ceir enghreifftiau o newidiadau i arferion gwaith y gellir eu rhannu i ddangos bod y broses hon yn gweithio**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod unrhyw newidiadau i arferion gwaith sy'n deillio o ganlyniadau digwyddiad difrifol wedi eu harchwilio i sicrhau eu bod wedi arwain at welliant**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o ddull o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol h.y. cylchlythyr, ond nid yw hyn wedi'i ymsefydlu'n dda**<br><br>**Ceir tystiolaeth anecdotaidd o newidiadau i arferion gwaith ond ni ddilynwyd proses ffurfiol i'w cyflwyno**<br><br>**Ceir tystiolaeth o newidiadau i arferion gwaith ond nid ydynt wedi eu harchwilio i fesur llwyddiant**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **Nid oes proses ffurfiol nac anffurfiol ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes unrhyw ganlyniadau a all ddangos newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i ddigwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes tystiolaeth o archwilio newidiadau i arferion gwaith**<br><br>**Gall llai na 10 bydwraig ddisgrifio unrhyw beth tebyg i broses ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol a sut y mae'r rhain yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith** |
| **Sylwadau'r AGLI** | | | | |

| |
|---|
| Yn ystod yr ymweliad archwilio, roedd yn amlwg fod proses ar gael ar gyfer rhannu canlyniadau Digwyddiadau Difrifol â'r bydwragedd perthnasol. Roedd y bydwragedd a gymerodd ran yn yr ymweliad archwilio yn croesawu adborth ar wersi a ddysgwyd o ddigwyddiad, ac roeddent yn teimlo bod hyn yn annog agwedd ragweithiol yn hytrach nag arwain at ymarferydd amddiffynnol.<br><br>Defnyddir cylchlythyr rheolaidd i rannu unrhyw newidiadau a gyflwynir yn sgil canlyniadau a gwersi i'w dysgu oherwydd Digwyddiadau Difrifol. Roedd y bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu cyfeirio at y ffordd hon o rannu gwersi i'w dysgu pan ofynnodd tîm adolygu'r AGLI iddynt. Roedd y broses o ddysgu gwersi trwy ddehongli CTG i'w gweld ar y ward esgor, a dyma enghraifft o newid ymarfer o ganlyniad i ddigwyddiadau blaenorol. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Fel yn V11, ar ôl cytuno ar newidiadau sefydliadol, dylid cytuno ar fframwaith ysgrifenedig sy'n nodi'r broses ar gyfer dysgu gwersi, a darparu mwy o enghreifftiau o newidiadau o ran ymarfer o ganlyniad i gyfraniad y Goruchwylwyr Bydwragedd at y broses Digwyddiadau Difrifol. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V14 | **Caiff y cofnodion a gedwir gan bob bydwraig eu harchwilio'n flynyddol. *Rheol 9.*** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn defnyddio dull safonol o archwilio'r cofnodion yn rhan o'r broses adolygu flynyddol, a chynhelir archwiliadau ychwanegol o'r cofnodion gan gymheiriaid.<br>Llunnir adroddiad archwilio er mwyn nodi'r gwersi sydd i'w dysgu o'r archwiliadau o'r cofnodion. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V14 **Canlyniadau:**<br><br>**Yr AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gref / gymedrol. Gwnaed argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus.** | | **Ceir proses ysgrifenedig eglur i nodi pa brosesau archwilio cofnodion a fydd yn cael eu cynnal, pa mor aml, pwy fydd yn cymryd rhan a sut y bydd y canlyniadau ar gyfer gwella yn cael eu rhannu gyda phob bydwraig** | **Nid oes proses ysgrifenedig wedi'i sefydlu ar gyfer archwilio cofnodion ond mae tystiolaeth bod hyn yn digwydd yn rheolaidd, mewn gwahanol fformatau, gan wahanol bobl/timau a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n aml** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw'n eglur pa mor aml, gan bwy na sut y mae archwiliadau'n cael eu cynnal** |
| | | **Ceir enghreifftiau o offerynnau archwilio cofnodion i ddangos sut y cynhelir yr archwiliadau** | **Ceir un offeryn archwilio o leiaf i ddangos sut y cynhelir archwiliad** | **Nid oes unrhyw offerynnau archwilio cydnabyddedig i ddangos sut y bydd archwiliadau cadarn yn cael eu cynnal neu wedi cael eu cynnal** |
| | | **Ceir enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd o flwyddyn i flwyddyn a pha wersi a ddysgwyd o bob un ohonynt** | **Ceir rhai enghreifftiau o archwiliadau blaenorol ond nid ydynt yn systematig** | **Dim ond enghreifftiau ad hoc a geir o archwiliadau cofnodion** |
| | | **Ceir enghreifftiau rheolaidd o sut y mae'r gwersi a ddysgwyd o archwiliadau yn cael eu rhannu â phob bydwraig** | **Ceir rhai enghreifftiau o wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu, ond nid yw hyn yn gyson** | **Ceir enghreifftiau ad hoc o rannu'r gwersi a ddysgwyd** |
| | | **Ceir tystiolaeth o archwilio a gwella rhwng adolygiadau** | **Ceir tystiolaeth o ail-archwilio, ond mae gwelliant parhaus yn llai amlwg** | **Prin yw'r dystiolaeth o ail-archwilio neu welliannau, neu ddim tystiolaeth o gwbl** |
| | | **Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio pob un o'r camau** | **Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio'r rhan fwyaf o'r camau** | **Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio unrhyw un o'r camau uchod neu siarad am** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **uchod a siarad am newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad** | **uchod a siarad am sut y mae hyn wedi dylanwadu ar arferion gwaith** | **sut y mae archwiliadau cofnodion yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLI**

Dangosodd Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro y broses o archwilio cofnodion trwy'r offeryn archwilio a'r adroddiadau archwilio a oedd yn nodi lle y bu gwersi i'w dysgu o fewn safonau cadw cofnodion. Yn ystod yr ymweliad archwilio, roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd a'r bydwragedd yn gallu disgrifio'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r archwiliadau o'r cofnodion.

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro yn edrych ar offeryn a fydd yn ystyried y themâu a'r tueddiadau ar gyfer dysgu'r gwersi o'r archwiliadau o'r cofnodion.

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro hefyd yn trefnu hyfforddiant ar gadw cofnodion gyda Thîm Cyfreithiol Iechyd Cymru ar gyfer 2013-2014.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd barhau â chynllun archwilio ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan, sy'n cynnwys proses yr archwiliad, y math o archwiliad, pa mor aml y dylid eu cynnal, sut y bydd tueddiadau a themâu yn cael eu nodi, a sut y rhoddir adborth ar y gwersi a ddysgwyd ac yna'u hailarchwilio. Dylid cyflwyno'r dystiolaeth hon mewn adroddiad cyfansawdd er mwyn dangos sut y dylanwadwyd ar newidiadau o ran ymarfer flwyddyn ar ôl blwyddyn.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V15 | **Rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth sy'n berthnasol i oruchwylio bydwragedd yn statudol, e.e. drwy gyfrwng cylchlythyrau, bwletinau, gwefannau, e-bost, negeseuon llais ac adroddiadau gan yr AGLI, Cyflogwyr a Goruchwylwyr Bydwragedd.** | Mae hysbysfyrddau goruchwylio i'w gweld yn yr holl ardaloedd mamolaeth. Rhoddwyd nifer o bosteri cyfredol a llawn gwybodaeth ar y byrddau arddangos yn ddiweddar. Mae'r byrddau arddangos yn cynnwys taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.<br><br>Paratowyd crynodeb gweithredol o'r Adroddiad Goruchwylio Blynyddol mewn fformat SBAR ac fe'i rhannwyd â'r Bwrdd Gweithredol. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V15 **Canlyniadau:**<br><br>**Nid aseswyd y safon hon, ac mae'r argymhelliad o archwiliad 2011-2012 yn parhau i fod yn berthnasol.** | | **Ceir tystiolaeth amlwg y rhoddir cyhoeddusrwydd i Oruchwylwyr Bydwragedd yn yr holl fannau y mae menywod a theuluoedd yn ymweld â hwy** | **Mae rhywfaint o wybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg, ond nid yw'n gyson ym mhob man lle y gwelir menywod a theuluoedd** | **Nid oes gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg i aelodau'r cyhoedd ei gweld mewn unrhyw fan** |
| | | **Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael ynghyd â dogfennau ysgrifenedig eraill sy'n esbonio wrth fenywod pam y gallent fod yn dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd, a sut i wneud hynny** | **Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gael ond nid oes gwybodaeth ychwanegol wedi'i pharatoi'n lleol ac nid yw'n eglur i fenywod pam y byddent efallai'n dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd** | **Nid oes taflenni a baratowyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nac yn lleol ar gael i fenywod** |
| | | **Ceir gwybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol am swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd a sut i gysylltu â hi** | **Ceir cyfeiriad at Oruchwylwyr Bydwragedd ar y wefan ond dim manylion ychwanegol** | **Ni chyfeirir at Oruchwylwyr Bydwragedd ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol** |
| | | **Ceir tystiolaeth bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei rannu gyda fforymau defnyddwyr megis y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac ar draws y sefydliad i fyny at lefel y Bwrdd** | **Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei rannu gyda'r Bwrdd ond tystiolaeth gyfyngedig sydd i ddangos ei fod wedi ei rannu'n ehangach** | **Dim ond gyda'r Bwrdd y rhannwyd yr adroddiad blynyddol, os o gwbl** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn ymwybodol bod cylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cael ei rannu gyda bydwragedd a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **Mae llai na 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ac yn gallu disgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLl**

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd a Goruchwylwyr Bydwragedd dan hyfforddiant Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi cymryd camau sylweddol i ddangos goruchwylwyr fel arweinwyr cadarn sydd wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith goruchwylio yn weladwy i'r sefydliad, y bydwragedd a defnyddwyr y gwasanaethau mamolaeth. Ers ymweliad 2011-2012, rhoddwyd gwybodaeth gyfredol am oruchwyliaeth ar y byrddau arddangos. Mae'r rhain i'w gweld ym mhob ardal ac yn cynnwys gwybodaeth am oruchwyliaeth a pham y cewch gysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd. Mae Porth Clinigol y Bwrdd Iechyd Lleol yn cynnwys proffil rhagorol ar gyfer goruchwyliaeth statudol, a cheir tudalen benodol i ddangos gwaith Goruchwylwyr Bydwragedd lleol.

Roedd adroddiad blynyddol yr AGLl ac adroddiad blynyddol y Bwrdd Iechyd Lleol wedi eu rhannu â'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ar lefel y Bwrdd, trwy bapur briffio a baratowyd gan y Pennaeth Bydwreigiaeth ac a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Nyrsio.

Roedd tystiolaeth ar gael fod cylchlythyr yr AGLl wedi ei ddosbarthu'n ehangach. Mae hwn yn codi proffil goruchwyliaeth ac yn cynorthwyo bydwragedd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau a newyddion gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfrannu at y gwaith o ddiweddaru'r wefan er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am oruchwyliaeth yn gyfleus a hawdd ei deall.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Nid aseswyd y safon hon, ac mae'r argymhelliad o archwiliad 2011-2012 yn parhau i fod yn berthnasol.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V16 | **Caiff Goruchwylwyr Bydwragedd eu cynnwys ym mhrosesau ffurfio polisïau, gosod safonau a monitro arferion a chyfarpar er budd Iechyd a Diogelwch.** | Cynhelir archwiliadau dyddiol o'r offer yn yr holl ardaloedd acíwt.<br>Mae rhestr archwilio offer ar gael.<br><br>Prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael ynglŷn ag archwilio offer cymunedol gyda phob bydwraig unigol yn eu sesiynau diweddaru blynyddol bydwreigiaeth. | |

| | Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | **Mesurau**: Cryf | Cymedrol | Gwan |
|---|---|---|---|---|
| V16 | **Canlyniadau:**<br><br>**Yr AGLI – bodlonwyd â thystiolaeth gymedrol, a gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus.** | **Ceir polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward ac ar gyfer bydwragedd cymunedol** | **Nid oes polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, ond gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio sut y mae hyn yn digwydd** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio sut na pha mor aml y gwneir hyn** |
| | | **Ceir tystiolaeth bod cyfarpar yn cael ei archwilio'n aml o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel, ond nid yw hyn yn gyson** | **Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl** |
| | | **Ceir tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio a monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, ond nid yw hyn yn gyson** | **Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl** |

**Sylwadau'r AGLI**

Yn ystod yr ymweliad, cadarnhawyd bod gweithwyr priodol yn archwilio ac yn cynnal a chadw offer ysbyty, megis resuscitaires. Roedd y briffiau diogelwch yn dystiolaeth fod yr ardaloedd clinigol yn cynnal archwiliadau rheolaidd o droliau ac offer arall, fel bo angen. Nid cyfrifoldeb y Goruchwylwyr Bydwragedd yn unig oedd hyn, ond yr oeddent yn gallu disgrifio beth sy'n digwydd a pha bryd.

Roedd tystiolaeth gref ar gael i ddangos bod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan flaenllaw mewn hyfforddiant, asesu cymhwysedd a rhannu arfer da a gwersi i'w dysgu o ran y defnydd o CTG. Er hynny, mae dal i fod angen gwella presenoldeb mewn sesiynau diweddaru CTG a chwblhau K2 yn well. Ceir arddangosfa weledol yn yr

| |
|---|
| ystafelloedd esgor sy'n hybu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ar gyfer dehongli CTG.<br><br>Roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cydnabod bod argymhelliad wedi ei wneud yn archwiliad 2011-2012 ynglŷn â'r ffaith fod angen datblygu fframwaith ar gyfer archwilio offer cymunedol. Mae'r Arweinydd Cymunedol wedi llunio fframwaith ond ni fwriadwyd ei roi ar waith tan fis Mai 2013. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Amlygwyd yn y sesiwn adborth ar ddiwedd yr ymweliad archwilio fod yn rhaid rhoi sicrwydd i'r timau Goruchwylwyr Bydwragedd fod proses gadarn a chyson wedi ei sefydlu ar gyfer archwilio offer yn y gymuned a bod y camau dilynol yn cael eu monitro, gan i hyn fod yn argymhelliad yn archwiliad 2011-2012. |

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i’w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan y BILI</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI:</th></tr>
<tr><td>V17</td><td>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi gwybod i’w cyflogwr os ydynt yn pryderu y gallai adnoddau annigonol beryglu diogelwch y cyhoedd yn y gwasanaethau mamolaeth.</td><td colspan="2">Ceir eitem agenda sefydlog ar gyfer cyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd er mwyn codi unrhyw broblemau y mae’r Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwybodol ohonynt. Nid oes unrhyw bryderon wedi eu codi ynglŷn ag adnoddau annigonol yn ystod 2012-2013. Fodd bynnag, mae’r Goruchwylwyr Bydwragedd yn cydnabod bod yn rhaid iddynt fod yn rhagweithiol o ran sicrhau eu bod yn ystyried gwybodaeth lawn am Birthrate Plus a chynllunio’r gweithlu, er mwyn rhoi sicrwydd bod adnoddau digonol ar gael.<br><br>Gall Goruchwylwyr Bydwragedd unigol gyfarfod â’r Pennaeth Bydwreigiaeth neu reolwyr bydwreigiaeth i drafod pryderon.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau’r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td colspan="2">V17 Canlyniadau:<br>.<br>Yr AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gymedrol.<br><br>Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus.</td><td>Mae cofnodion cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn dangos y trafodir materion staffio neu risgiau eraill i ddiogelwch cleifion<br><br>Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu a luniwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd i gynorthwyo bydwragedd i gynnal arferion gwaith diogel ac mae canlyniadau eglur yn deillio o hynny<br><br>Ceir tystiolaeth ysgrifenedig bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi eu pryderon gyda’r pennaeth bydwreigiaeth pan fo’u llwyth gwaith eu hunain yn peryglu eu gallu i amddiffyn y cyhoedd neu pan fo pryderon o’r fath yn ymwneud â darparu gwasanaethau, ac mae canlyniadau eglur yn deillio o</td><td>Mae cofnodion cyfarfodydd yn dangos rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â lefelau staffio diogel ac ati, ond nid yw mor eglur pa gamau a gymerwyd o ganlyniad<br><br>Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu ond nid yw’r rhain yn gadarn ac nid yw’r canlyniadau wedi’u diffinio’n eglur<br><br>Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi pryderon gyda’r pennaeth bydwreigiaeth ac eraill, ond ni fu unrhyw gamau dilynol na newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i hynny</td><td>Nid oes tystiolaeth bod materion o’r fath yn cael eu trafod gan Oruchwylwyr Bydwragedd yn eu cyfarfodydd</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td>hynny</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Sylwadau’r AGLI<br>Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd lle y mae’r agenda yn canolbwyntio mwy ar swyddogaethau amddiffyn y cyhoedd a swyddogaeth y Goruchwylwyr Bydwragedd ynglŷn â herio rheolwyr i fynd i’r afael â phryderon. Gwelwyd peth tystiolaeth y caiff Digwyddiadau Difrifol a’u cynlluniau gweithredu dilynol eu hadolygu yng nghyfarfodydd tîm y Goruchwylwyr Bydwragedd, er mwyn cryfhau’r broses o gynllunio camau gweithredu a sicrhau bod y rheolwyr yn mynd i’r afael â meysydd pryder.<br><br>Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI a’r Goruchwyliwr Cyswllt Bydwragedd yn cyfarfod â’r Pennaeth Bydwreigiaeth pryd y trafodir staffio a materion diogelwch eraill. Cafwyd trafodaeth ddiweddar ynglŷn â’r ffaith fod y sefydliad islaw argymhellion Birthrate Plus. Mae unrhyw faterion nad ydynt wedi eu datrys yn cael eu cyfeirio at y Cyfarwyddwr Nyrsio ar sail pob achos unigol trwy’r cyfarfodydd adolygu bob chwe mis, neu’n ad hoc os oes angen. Roedd rhai enghreifftiau da ar gael o gynllunio gofal gan y Goruchwylwyr Bydwragedd mewn partneriaeth â’r bydwragedd er mwyn cefnogi cynlluniau gofal i fenywod sy’n gwneud dewisiadau geni llai ffafriol.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus<br><br>Mae angen i’r Goruchwylwyr Bydwragedd sicrhau y ceir cynrychiolaeth deg ym mhob un o gyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd, a bod yr agenda wedi ei gosod yn briodol i sicrhau y rhoddir pwyslais cryf ar fonitro materion rheoli sy’n deillio o ddigwyddiadau difrifol ac ymchwiliadau goruchwylio, a sicrwydd bod cynlluniau gweithredu ym maes cynllunio’r gweithlu ar gael er mwyn cydymffurfio â Birthrate Plus. Mae angen i’r Goruchwylwyr Bydwragedd barhau i wneud yn siŵr eu bod yn amlwg mewn pwyllgorau corfforaethol eraill lle y maent yn cael cyfle i godi pryderon sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth famolaeth os ystyrir bod gan bryderon o’r fath oblygiadau o ran diogelwch mamau a babanod.<br><br>Mae angen i’r cynllun gweithredol ar gyfer goruchwyliaeth yn 2013/2014 gael ei lunio trwy ddefnyddio camau CAMPUS, er mwyn sicrhau bod rhywun yn arwain ar bob cam gweithredu, y pennir amserlen ar gyfer eu cwblhau, ac yr hysbysir yn rheolaidd ynglŷn â’r hyn a gyflawnwyd.</td></tr>
</table>

# 5 Casgliad

**5.1** Roedd yr AGLI yng Nghymru yn cydnabod bod angen adolygu proses archwilio Goruchwylwyr Bydwragedd a'i symleiddio i sicrhau ei bod yn addas at ei diben, ac y byddai'n ychwanegu at y mecanweithiau sicrwydd sy'n bodoli o ran gwella diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, roedd yr AGLI hefyd yn awyddus i osgoi dyblygu ymdrechion Goruchwylwyr Bydwragedd drwy lunio proses fwy di-dor i sicrhau y byddai canlyniadau ac argymhellion yn berthnasol ac yn rhoi sail i'r ffordd ymlaen mewn cyfnodau cynllunio canlynol. Mae hon yn broses ddynamig a bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn cydweithio â Goruchwylwyr Bydwragedd a Phenaethiaid Bydwreigiaeth i wneud mwy i fireinio'r archwiliad blynyddol er mwyn iddo ategu'r trefniadau llywodraethu mewnol yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r AGLI a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**5.2** Dylid cymeradwyo goruchwylwyr Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro am eu gwaith hyd yn hyn ac am gyfraniad unigolion a'r tîm yn ei gyfanrwydd at wella diogelwch y cyhoedd. Mae'r AGLI yn ddiolchgar i'r holl staff a gyfrannodd at yr ymweliad archwilio ac at gasglu'r dystiolaeth, ac i'r Bwrdd Iechyd am eu croeso.

**5.3** Mae'r AGLI yng Nghymru yn edrych ymlaen at gydweithio â phob Goruchwyliwr Bydwragedd i barhau i sicrhau bod y swyddogaeth oruchwylio'n fwy amlwg ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at gefnogi'r gwaith o Ddiogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol gan ddangos i'r Bwrdd bod goruchwylio wirioneddol yn ychwanegu gwerth at wasanaethau bydwreigiaeth a bod swyddogaeth y goruchwyliwr yn y pen draw'n gwella diogelwch y cyhoedd drwy gefnogi gweithlu bydwreigiaeth diogel.

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd — protecting the public through statutory supervision of midwives

agic Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru — Healthcare Inspectorate Wales hiw

**Atodiad A**

## AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen yr Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

Dyddiad: **Dydd Mercher, 20 Mawrth 2013**
Lleoliad: **Ystafell Gyfarfod Fawr, Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

| Rhif | Amser | Gweithgaredd | |
|---|---|---|---|
| 1 | 09.00 | Cyrraedd a Choffi | |
| 2 | 09.15 | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI<br><br>Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i egluro diben y drefn ddiwygiedig o archwilio goruchwyliaeth, a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol fel y'i pennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>I'w gwahodd – Cyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth<br>Cyfarwyddwr Clinigol<br>Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt<br>Goruchwylwyr Bydwragedd Lleol<br>Rheolwr Risg Corfforaethol<br>Cymorth gweinyddol i'r goruchwylwyr bydwragedd | |
| 3 | 09.30 | Cyflwyniad 20 munud gan Oruchwylwyr Bydwragedd lleol gan gynnwys:<br><br>1. Crynodeb o'r adroddiad blynyddol lleol a chynllun gweithredol 2012-2013<br>2. Enghreifftiau o Arfer Da<br>3. Enghreifftiau o broffil goruchwylio yn lleol<br>4. Gwybodaeth allweddol ar gyfer adroddiad blynyddol lleol 2012-2013<br>5. Cyfeiriad y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol a chynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer 2013-2014 | |
| 4 | 10.00 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Rheolwr Risg (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod ag arweinwyr ym maes Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, ac adolygu enghreifftiau o Oruchwylwyr Bydwragedd yn ymgysylltu â defnyddwyr (Tîm 2) |
| 5 | 10.30 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Clinigol (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â myfyrwyr bydwreigiaeth, addysgwyr ymarfer, mentoriaid bydwragedd (Tîm 2) |
| 6 | 11.15 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â Goruchwylwyr Bydwragedd lleol i adolygu tystiolaeth ar gyfer safonau archwilio V1, V3, V4, V11, V12, V13, V14, V16, a V17. | |
| 7 | 13:00 | **Cinio** | |
| 8 | 13:30 | Tîm Adolygu'r AGLI i gadarnhau tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol | |
| 9 | 15.00 | Tîm Adolygu'r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad | |

| | | |
|---|---|---|
| 10 | 16.00 - 16.15 | Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth ac eraill, crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf |

# Atodiad B

**Rhestr o'r rhai a gymerodd ran ym mhroses yr Archwiliad Blynyddol**

Cyfarwyddwr Nyrsio – Ruth Walker – cyswllt ffôn cyn yr ymweliad archwilio

Pennaeth Bydwreigiaeth a Goruchwyliwr Bydwragedd – Mary Coakley

Pennaeth Rheoli Risg a Llywodraethu Corfforaethol - Melanie Westlake

Bydwraig Llywodraethu a Goruchwyliwr Bydwragedd – Anne Morgans

Nyrs Adrannol ar gyfer yr Adran Plant a Menywod – Berni Steer

Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt – Karen Hone

Goruchwyliwr Bydwragedd – Abi Holmes

Goruchwyliwr Bydwragedd – Karen Moseley

Goruchwyliwr Bydwragedd – Sue Jose

Goruchwyliwr Bydwragedd – Elizabeth Stephenson

Goruchwyliwr Bydwragedd – Diane Taylor

Goruchwyliwr Bydwragedd – Sarah Spencer

Goruchwyliwr Bydwragedd – Libby Barraz

Goruchwyliwr Bydwragedd – Lindsey Hilldrup

Goruchwyliwr Bydwragedd dan Hyfforddiant – Martine Lloyd

Cymorth Gweinyddol i'r Goruchwylwyr Bydwragedd - Kathryn Byrne

Cyswllt Addysg – Jane Gray / Libby Barraz

Myfyrwyr Bydwreigiaeth – Carfan Blwyddyn 1

Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth – Leah Morantz

Bydwragedd o'r Ystafelloedd Esgor, y Wardiau Cynenedigol ac Ôl-enedigol, Brysbennu, a'r Uned dan Arweiniad Bydwragedd